Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Beverley Richards**

**Llanelli**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12/07/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 18 Ionawr 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio'. |

## Crynodeb

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19. Felly, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn gyfforddus yn y lleoliad hwn. Mae'r plant wedi meithrin cydberthynas gadarnhaol â'r gwarchodwr plant ac maent yn ei hadnabod yn dda. Mae'r gwarchodwr plant yn hybu llesiant y plant yn briodol. Mae ganddi bolisïau, gweithdrefnau ac asesiadau risg cryno ond digonol ar waith. Mae'r amgylchedd yn un gofalgar ac mae'r gwarchodwr plant yn diwallu anghenion unigol y plant yn llwyddiannus.

Gofelir am y plant mewn amgylchedd diogel. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod digon o le a chyfleusterau i annog y plant i chwarae a dysgu. Mae'n darparu teganau ac offer chwarae sy'n briodol i oedran y plant ac mewn cyflwr da. Mae ei chartref yn groesawgar, yn lân ac yn gyfeillgar.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r lleoliad yn effeithiol ar y cyfan. Mae'n gweithio'n dda gyda'r rhieni i roi gwybod iddynt am lesiant a gofal y plant, ac mae'r rhieni'n ei chanmol.

## Llesiant

Mae'r plant yn chwarae'n rhydd ac yn mynegi eu hunain yn gadarnhaol. Maent yn sgwrsio ac yn sôn wrthym amdanyn nhw eu hunain yn hyderus. Mae'r plant iau yn cyfathrebu'n dda, ar lafar ac yn ddieiriau. Er enghraifft, gwnaeth un o'r plant ofyn i'r gwarchodwr plant a allai hi ei helpu hi i roi ei hosanau ar blentyn arall. Pan ofynnodd y gwarchodwr plant beth roedd y plant am ei wneud, dywedodd un ohonynt ei bod am fynd am dro. Roedd y plant yn dewis ble roeddent am eistedd wrth y bwrdd, a symudodd un plentyn i ochr arall y bwrdd i fod yn agosach at blentyn arall.

Mae'r plant yn hapus ac yn fodlon eu byd ar y cyfan. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r gwarchodwr plant yn dda. Er enghraifft, paratôdd blentyn brecwast a phaned o de i'r gwarchodwr plant gan ddefnyddio'r gegin chwarae, a gofynnodd i ni yn hapus a hoffem gael paned o goffi hefyd.

Mae'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae. Maent yn chwarae'n rhydd gyda'r adnoddau sydd ar gael, gan symud o un gweithgaredd i'r llall ar ôl cyfnod priodol o amser. Er enghraifft, pan oedd plentyn wedi gorffen chwarae â jig-so, dewisodd chwarae â'r bwyd yn y gegin chwarae.  Mae'r plant yn cael y cyfle i chwarae dan do, yn yr awyr agored ac yn yr ardal leol, fel y parc a chylchoedd chwarae.

Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn dda, gan eu galluogi i wneud pethau drostyn nhw eu hunain. Er enghraifft, maent yn cael cyfleoedd i fwydo eu hunain, golchi eu dwylo, a gwisgodd un plentyn ei esgidiau'n annibynnol cyn ceisio rhoi hosanau ar draed plentyn arall.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo diogelwch a llesiant personol y plant yn dda, ac mae polisïau a gweithdrefnau digonol ar waith. Mae ganddi brosesau ar waith i ddiogelu'r plant yn effeithiol. Cwblhaodd gwrs amddiffyn plant yn ddiweddar. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r plant yn ddiogel drwy roi negeseuon diogelwch iddynt yn rheolaidd. Pan fyddant yn mynd allan am dro, mae'r gwarchodwr plant yn atgoffa'r plant am ddiogelwch ar y ffyrdd ac yn sicrhau eu bod yn gwisgo harneisiau diogelwch.

Mae gan y gwarchodwr plant bolisi rheoli ymddygiad boddhaol ar waith. Mae'n dilyn y polisi ac yn ei ddefnyddio'n briodol, gan ganmol y plant am eu hymddygiad da yn rheolaidd. Cywsom, "*well done, you are so good" (da iawn, rwyt ti mor dda)* pan wisgodd plentyn ei esgid. Mae'r gwarchodwr plant yn rhyngweithio â'r plant yn dda, ac yn sylweddoli pan fydd angen cysur arnynt, neu pan fyddant wedi blino. Er enghraifft, pan ofynnodd i blentyn a oedd wedi blino, nodiodd ei phen, a gwnaeth y gwarchodwr plant ei hannog i orffwys ar y soffa. Hefyd, rhoddodd gysur i blentyn pan ofynnodd a fyddai ei riant yn dod i'w gasglu'n fuan.

Mae'r gwarchodwr plant yn hybu iechyd a hylendid y plant yn effeithiol. Mae gan y gwarchodwr plant becyn cymorth cyntaf a thystysgrif cymorth cyntaf gyfredol. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu bwyd wedi'i goginio'n ffres, gan gynnwys cinio rhost, pasta a chawl. Mae'n dilyn yr arferion cywir ar gyfer storio a thrin bwyd. Fodd bynnag, mae angen adnewyddu ei hyfforddiant ar hylendid bwyd. Mae'n annog y plant i olchi eu dwylo cyn bwyta, ac mae sebon hylif a thywelion papur ar gael. Mae'r gwarchodwr plant yn gwisgo menig a ffedog untro i newid cewynnau'r plant, yn golchi eu dwylo ar ôl eu newid, ac yn diheintio'r mat yn briodol.

Cymraeg yw iaith gyntaf y gwarchodwr plant, a Chymraeg yw'r brif iaith a siaredir â'r plant.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae wedi gwneud gwelliannau ers yr arolygiad diwethaf. Er enghraifft, gosododd gyntedd croes wrth ymyl y tŷ, sy'n ei galluogi i gadw'r drws cefn ar agor er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel. Mae gan y gwarchodwr plant asesiadau risg sylfaenol ar gyfer y tŷ a'r ardd, ac mae'r rhain yn cael eu gwirio bob dydd. Mae'n cynnal ymarferion tân rheolaidd ac yn cofnodi'r rhain yn ei dyddiadur.

Mae lleoliad y gwarchodwr plant yn fawr ac yn groesawgar. Mae'r ystafell chwarae yn olau, gyda digon o le ar y llawr i chwarae, gyda drysau patio yn arwain at ardd gefn gaeedig, ddiogel. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio'r ardd a'r ardaloedd chwarae yn yr awyr agored mor aml â phosibl; ac mae hyn yn cynnwys yr ardd a theithiau i'r parc, y siopau a chylchoedd chwarae.

Mae gan y gwarchodwr plant adnoddau a chyfarpar priodol ar gyfer plant o bob oedran. Mae'n defnyddio bwrdd y gegin er mwyn i'r plant gael cinio ac mae ganddi blatiau o faint addas i blant. Mae ganddi glustogau codi a seddi plant ar gyfer y car hefyd. Mae gan y gwarchodwr plant rai doliau amlddiwylliannol, sy'n adlewyrchu ein cymdeithas amrywiol.

## Arwain a Rheoli

Mae'r gwarchodwr plant yn rhedeg ei lleoliad yn briodol ac mewn ffordd drefnus. Mae'n cadw'r holl gofnodion mewn perthynas â chontractau a dewisiadau'r plant, ac felly gall ddiwallu eu hanghenion a'u dymuniadau. Mae gan y gwarchodwr plant bron pob caniatâd priodol gan y rhieni, er nad oedd ganddi ganiatâd y rhieni i geisio triniaeth feddygol frys. Newidiodd y gwarchodwr plant y contractau yn ystod yr arolygiad a chadarnhaodd ei bod wedi'u cynnwys erbyn hyn. Mae gan y gwarchodwr plant waith papur priodol i gadw cofnodion, megis ffurflenni damweiniau/digwyddiadau, er iddi ddweud na fu unrhyw ddamweiniau na digwyddiadau hyd yma. Mae gan y gwarchodwr plant dystysgrifau cyfredol megis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, dogfennau car a gwasanaethu'r boeler. Mae ganddi'r gwiriadau gofynnol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, mae'n cadw cofnodion presenoldeb cywir o'r plant yn cyrraedd ac yn gadael, ac mae'r cofnodion yn nodi manylion ymwelwyr.

Mae gan y gwarchodwr amrywiaeth ddigonol o bolisïau, gweithdrefnau ac asesiadau risg. Cafodd y rhain eu diweddaru'n ddiweddar. Mae ganddi ddatganiad o ddiben, sydd hefyd wedi cael ei ddiweddaru a'i adolygu, ac sy'n adlewyrchiad cywir o'i lleoliad.

Mae'r gwarchodwr plant wedi adolygu a gwerthuso ei lleoliad yn effeithiol. Mae'n sicrhau ei bod yn cynnwys barn y rhieni a'r plant yn yr adolygiad. Mae'r gwarchodwr plant wedi rhoi'r holl argymhellion a wnaed yn yr arolygiad blaenorol ar waith. Er enghraifft, mae wedi mynd ar gwrs amddiffyn plant wyneb yn wyneb a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol, yn ogystal â chwblhau cwrs hyfforddiant ar-lein.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni yn dda. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni yn rheolaidd drwy gyfathrebu â nhw ar lafar, cadw dyddiaduron dyddiol ac anfon negeseuon preifat atynt. Fel rhan o'r broses arolygu, gwelsom holiaduron y rhieni a oedd yn cadarnhau eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a ddarperir.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1 Dylai'r gwarchodwr plant gwblhau cwrs hylendid bwyd ar-lein.

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni | |
|---|---|
| Ni all y gwarchodwr plant ddarparu ar gyfer lles plant perthnasol yn briodol oherwydd nid oes ganddi ddealltwriaeth glir o'i rôl na'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant. Rhaid i'r gwarchodwr plant ddiweddaru ei gwybodaeth a dangos bod ganddi ddealltwriaeth o weithdrefnau diogelu plant. | Rheoliad 20 (1) (a) |

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 13/09/2021